# Dod yn Noddwr

## Canllaw i Bractisiau Meddygon Teulu yng Nghymru

Crëwyd gan Dîm Tystysgrifau Nawdd Gwasanaethau Cyflogaeth PCGC

# Cynnwys


Llif Proses ar gyfer Practisiau Meddygon Teulu ........ 3
Dod yn Noddwr ........ 4
Costau a Ffioedd ........ 5
Ad-daliad ........ 6
Aseinio Tystysgrif Nawdd (CoS) – Practis Meddyg Teulu ........ 7
Gwybodaeth i'w darparu ar ôl aseinio Tystysgrif Nawdd (CoS) ........ 10
Gofyn am ddyraniad CoS ar y System Rheoli Nawdd ........ 11
Estyniad 4 Mis i Hyfforddai Meddyg Teulu ........ 13

# Llif Proses ar gyfer Practisiau Meddygon Teulu

GIG CYMRU NHS WALES | Partneriaeth Cydwasanaethau Shared Services Partnership

Llywodraeth Cymru Welsh Government

### Recriwtio

Mae Practis Meddygon Teulu eisiau recriwtio ymgeisydd sydd angen fisa Gweithiwr Medrus

### Y Camau Nesaf

Mae angen i Bractis Meddyg Teulu gael Trwydded Noddi Gweithiwr Medrus trwy'r Swyddfa Gartref

### Cysylltu â PCGC

Bydd Tîm CoS PCGC yn rhoi cymorth i sefydlu Trwydded Noddi

### Cais am Drwydded

Mae Practis Meddyg Teulu yn gwneud cais am Drwydded Noddi ac mae'r Swyddfa Gartref yn ei gymeradwyo o fewn 8 wythnos

### Darparu Nawdd

Pan sefydlir trwydded, gall practis meddyg teulu ddarparu nawdd Gweithiwr Medrus i ymgeisydd a all wedyn wneud cais am fisa i ddechrau gweithio

### Ad-daliad

Ar ôl derbyn cymeradwyaeth trwydded y Swyddfa Gartref, gall practis meddygon teulu wneud cais am ad-daliad o ffioedd y Swyddfa Gartref (adran ffioedd isod) drwy anfonebu Adran Gyllid Corfforaethol PCGC

** Gellir gweld y swyddi gwag presennol ar gyfer meddygon teulu yng Nghymru drwy https://gpwales.co.uk/

## Dod yn Noddwr

I gyflogi rhywun o'r tu allan i'r DU i weithio i chi bydd angen trwydded noddwr arnoch fel arfer i roi Tystysgrif Nawdd (CoS) iddynt. Yn unol â chanllawiau'r Swyddfa Gartref, rhaid i unrhyw Sefydliad sy'n dymuno noddi Gweithiwr Medrus fod yn Gyflogwr. Felly'r opsiwn mwyaf addas wrth symud ymlaen yw i bractisiau meddygon teulu wneud cais am eu trwydded Noddi eu hunain a phennu Tystysgrif Nawdd i unrhyw unigolyn y dymunant eu cyflogi.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth trwy ddefnyddio'r ddolen isod:

Nawdd fisa y DU i gyflogwyr: Trosolwg - GOV.UK (www.gov.uk)

Pan fyddwch yn gwneud cais, bydd penderfyniad yn cael ei wneud cyn pen 8 wythnos o'ch cais. Gellir talu cost ychwanegol i gyflymu'r broses hon os oes angen. Gweler yr adran ar ad-dalu isod.

Fel rhan o'r broses ymgeisio, rhaid darparu dogfennau ategol. Amlinellir y ddogfennaeth y mae'n ofynnol i chi ei darparu yma.

Pan fyddwch yn gwneud cais am y drwydded, bydd angen i chi benodi aelodau o'ch sefydliad i reoli'r broses noddi. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth drwy ddefnyddio'r ddolen hon.

Wrth wneud cais, bydd angen i chi sicrhau eich bod yn adolygu eich cais yn llawn cyn ei gyflwyno – *h.y. sicrhau eich bod wedi dewis y* ***sefydliad o'r maint cywir***, fel bod y ffioedd cywir yn berthnasol.

Unwaith y byddwch yn barod i wneud cais, gallwch wneud hyn gan ddefnyddio'r ddolen isod:

UK visa sponsorship for employers: Apply for your licence - GOV.UK (www.gov.uk)

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y broses, gellir cysylltu â ni am ragor o wybodaeth gan ddefnyddio'r e-bost isod:

PCGC.CertificateofSponsorship@wales.nhs.uk

## Costau a Ffioedd

Mae costau ynghlwm wrth wneud cais am drwydded a noddi unigolion.

Mae Ffi'r drwydded yn dibynnu ar p'un a ydych yn cael eich dosbarthu fel sefydliad bach neu fawr. Pan fydd eich cais yn llwyddiannus, bydd y drwydded hon yn ddilys am gyfnod amhenodol ar yr amod eich bod yn parhau i fodloni'r gofynion cymhwysedd a meini prawf angenrheidiol a osodwyd gan y Swyddfa Gartref.

**Ffi Trwydded Practis Meddyg Teulu**
(taliad untro - Practis Bach) - £611

**Ffi Trwydded Practis Meddyg Teulu**
(taliad untro - Practis Mawr) - £1,682

Gwnewch yn siŵr eich bod yn dewis yr opsiwn cywir wrth wneud cais gan fod y ffioedd yn amrywio. Os dewisir yr opsiwn anghywir, byddai angen i chi gywiro hyn yn uniongyrchol gyda'r Swyddfa Gartref. Byddai unrhyw ad-daliad am y gwall hwn neu wallau eraill a wneir gyda'r cais yn cael ei ad-dalu'n uniongyrchol ganddynt ac nid fel rhan o ad-daliad yr anfoneb gan y Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru/Llywodraeth Cymru.

Yn ogystal â chostau ffi'r drwydded, mae costau ar wahân ar gyfer pob unigolyn yr hoffech ei noddi.

Mae ffi noddi o £525 am bob nawdd, ac ar ben hynny efallai y bydd angen i chi dalu Tâl Sgiliau Mewnfudo sef £1320 y flwyddyn y byddwch yn noddi gweithiwr (os ydych yn sefydliad Mawr, neu £480 y flwyddyn os ydych yn sefydliad Bach). *Er enghraifft, byddai Sefydliad mawr sy'n noddi meddyg teulu am 2 flynedd yn talu £3165*.

Byddai angen i'r Practis felly sicrhau bod cerdyn credyd ar gael i dalu ffi'r Drwydded untro ac unrhyw nawdd unigol y maent yn ei neilltuo gan mai dyma'r unig fath o daliad y gellir ei ddefnyddio ar hyn o bryd ar wefan y Swyddfa Gartref.

Mae rhai achosion lle na fyddai'r Tâl Sgiliau Mewnfudo yn daladwy. Gellir cael rhagor o wybodaeth am hyn drwy ddefnyddio'r ddolen isod;

UK visa sponsorship for employers: Immigration skills charge - GOV.UK (www.gov.uk)

Mae rhagor o wybodaeth am hyn a'r ad-daliad sydd ar gael gan Lywodraeth

Cymru ar gael ar ein gwefan:

## Ad-daliad

Mae model a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn caniatáu i Bractisiau yng Nghymru sydd wedi gwneud cais am Drwydded Noddwr ac wedi gwneud cais i noddi Meddyg Teulu gael ad-daliad am y costau hyn.

Dylid cyflwyno'r cais am ad-daliad **o fewn 3 mis** i'w gymeradwyo i NWSSP.OCRInvoiceAutomation@wales.nhs.uk, gan gopïo hefyd i NWSSP.Finance@wales.nhs.uk.

Dylid cyfeirio'r cais at: **Cyllid PCGC, Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, Blwch Post 112, Pont-y-pŵl, NP4 4DG** a rhaid iddo gynnwys anfoneb PDF a phob cadarnhad gan y Swyddfa Gartref rydych chi wedi'i dderbyn. Os ydych chi'n noddi meddyg teulu unigol, gwnewch yn siŵr eich bod chi hefyd yn cynnwys ei enw a'i fanylion cofrestru proffesiynol.

Ar ôl ei dderbyn, bydd eich anfoneb yn mynd trwy broses gymeradwyo fewnol, a byddwn yn cysylltu â chi os oes angen rhagor o wybodaeth.

Os ydych chi'n gwneud cais am Drwydded Noddwr drwy'r llwybr cyflym, er mwyn helpu i osgoi costau diangen, disgwylir i Bractisiau wneud cais mewn digon o amser i ddefnyddio amserlenni prosesu safonol y Swyddfa Gartref ac ystyried yr holl ddewisiadau eraill sydd ar gael. Nid yw ffioedd Llwybr Cyflym yn ad-daladwy fel arfer ac ni ddylid eu defnyddio fel rhagosodiad.

Adolygwch yr holl opsiynau sydd ar gael cyn talu'r ffi llwybr cyflym ychwanegol, er enghraifft, os ydych chi'n cyflogi meddyg teulu dan hyfforddiant diweddar, mae'n debyg y bydd estyniad o 4 mis wedi'i gynnwys yn ei fisa cyfredol a fydd yn ei alluogi i weithio i chi hyd at 20 awr yr wythnos tra bod y cais am drwydded/ei gais am Dystysgrif Nawdd yn yr arfaeth.


Mae'r estyniad 4 mis yn caniatáu i'r unigolyn aros yn y DU a cheisio cyflogaeth bellach ar ôl i'w cwrs ddod i ben. Rhaid i unrhyw gais am ad-daliad ffi llwybr cyflym gael ei ategu gan gyfiawnhad busnes clir a thystiolaeth bod opsiynau eraill wedi cael eu harchwilio. Bydd ceisiadau’n cael eu hystyried ar sail eithriadau unigol ac ni ellir gwarantu ad-daliad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael mewn adran ddiweddarach yn y ddogfen hon.

# Aseinio Tystysgrif Nawdd (CoS) – Practis Meddyg Teulu

Mae'r camau isod yn amlinellu'r broses ar gyfer aseinio Tystysgrif Nawdd i ymgeisydd sy'n gwneud cais am fisa Gweithiwr Medrus o fewn Practis Meddyg Teulu.

Mewngofnodwch i'r system gan ddefnyddio'r ddolen ganlynol - https://www.points.homeoffice.gov.uk/gui-sms-jsf/home/SMS-003-Home.faces a chofnodwch eich enw defnyddiwr a'ch cyfrinair *(gellir dod o hyd i'r ddolen yn yr e-bost a gawsoch gan y Swyddfa Gartref)*





Pan fyddwch wedi mewngofnodi, cliciwch ar 'Workers' ar y golofn chwith, ac yna cliciwch ar 'Create and Assign'





Yna dewiswch 'Skilled Worker' o'r gwymplen gyntaf sy'n ymddangos. Os yw'r

ymgeisydd ar hyn o bryd ar fisa Gweithiwr Medrus/Haen 2 gyda Chyflogwr arall, dylai'r gwymplen nesaf fod yn 'Skilled Worker' (Changes of Employment – ISC Liable), ac yna cliciwch ar 'Next'




Yna gallwch ddewis 'Create new single certificate'. Bydd y dudalen hon wedyn yn mynd â chi at y ffurflen y mae angen i chi ei chwblhau gyda manylion yr ymgeisydd/swydd




Unwaith y byddwch wedi nodi'r holl wybodaeth, gallwch glicio 'Save' ar y gwaelod. Yna bydd yn rhoi crynodeb i chi o'r hyn rydych wedi'i nodi a gallwch glicio eto i fynd i'r dudalen nesaf *(bydd angen i chi hefyd glicio i gytuno â datganiad)*

Yna byddwch yn gweld sgrin a fydd yn rhoi botwm 'assign' i chi - Cliciwch ar hwn a byddwch yn cael eich tywys i sgrin talu. Gallwch gwblhau'r taliad fel unrhyw daliad arall ar-lein, a byddwch wedyn yn derbyn cadarnhad bod y taliad wedi bod yn llwyddiannus.

**Ystyriaethau Allweddol:**

- Teitl y Swydd - argymhellir osgoi talfyriadau, felly defnyddiwch 'Meddyg Teulu' yn lle MT

- Dyddiad Gorffen y Gwaith (‘Work End Date’) - Byddai'n werth gwirio gyda'r ymgeisydd am ba mor hir y bydd angen nawdd pellach. Y tebygolrwydd yw mai dim ond hyd at 2 flynedd y bydd ei angen arnynt i gwmpasu’r cyfnod sy’n weddill. Gallant wedyn wneud cais am Ganiatâd Amhenodol i Aros *(ar ôl 5 mlynedd yn y DU)*


- Crynodeb o’r Swydd-ddisgrifiad (‘Job Description Summary’) – Dylai hwn fod yn baragraff o ddyletswyddau allweddol yr ymgeisydd ond dylai hefyd gynnwys y canlynol: *Mae'r ymgeisydd yn gwneud cais trwy'r Llwybr Gweithiwr Medrus, mae’n gwneud swydd yn un o'r codau SOC penodedig a bydd yn cael ei gyflogi gan bractis meddyg teulu yng Nghymru. Mae’r ymgeisydd felly'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer y Cynllun Fisa Iechyd a Gofal.*

- Mae cynhaliaeth (‘Maintenance’) yn cyfeirio at Gyflogwr sy’n cefnogi’r unigolyn yn ariannol yn ei fis cyntaf o gyflogaeth pe bai ei angen arno – gall hyn fod yn daliad o hyd at £1270. Os yw'r unigolyn eisoes yn y DU, mae'n debygol na fyddant yn gofyn am hyn, ond os byddwch yn ticio 'Yes' mae'n helpu ei gais am fisa gan nad oes angen iddo ddangos tystiolaeth o gronfeydd ei gyfrif banc. Os ydynt yn gofyn amdano a'ch bod wedi dweud ‘yes’, yna byddai angen i chi roi'r cymorth iddynt.

## Gwybodaeth i'w darparu ar ôl aseinio Tystysgrif Nawdd (CoS)

Pan fyddwch wedi aseinio Tystysgrif Nawdd (CoS) i unigolyn, bydd angen i chi wedyn roi manylion penodol iddynt fel eu bod yn gallu gwneud cais am eu Fisa.

Yn gyntaf, dylech arbed copi o'u CoS o'r System Rheoli Nawdd (SMS) trwy fynd i 'Workers', 'View CoS', 'Search for CoS', rhowch enw Teulu'r unigolyn ac yna cliciwch ar 'Next'. Yna cliciwch i mewn i'w henw a sgroliwch i waelod y dudalen a chliciwch ar 'Print' a ddylai wedyn greu fersiwn PDF o'r CoS y gallwch ei gadw ar eich gyriant.




Yna dylech anfon y PDF hwn at yr unigolyn mewn e-bost a rhoi'r wybodaeth ganlynol iddynt hefyd -

- Cyfeiriad y Noddwr (Cyfeiriad Gwaith wedi'i gofrestru i'r Drwydded Noddi pan fydd wedi'i sefydlu)
- Cyfeiriad Gwaith Llawn (cyfeiriad y Practis Meddyg Teulu lle bydd yr unigolyn yn gweithio)
- Dolen i'r unigolyn ei dilyn i wneud cais am ei fisa - https://www.gov.uk/skilled-worker-visa
- Rhowch wybod iddynt bod y CoS yn ddilys am 3 mis felly rhaid iddynt ei ddefnyddio o fewn yr amser hwn

Dylai'r unigolyn hysbysu ei Noddwr cyn gynted â phosibl os bydd unrhyw un o'r newidiadau isod yn digwydd -


- Mae oedi i'ch dyddiad cychwyn
- Gwnaethoch fethu â mynychu am ddeg diwrnod yn olynol heb ganiatâd
- Ni wnaethoch dderbyn y swydd
- Rydych chi wedi ymddiswyddo ar ôl dechrau'r swydd
- Mae'r gweithiwr yn cael ei ddiswyddo gan noddwr

- Mae’r noddwr yn gorfod dileu swydd y gweithiwr
- Cwblhawyd y gwaith yn gynnar
- Mae’r gweithiwr wedi symud i drefniant nawdd arall
- Mae'r gweithiwr wedi symud i gategori mewnfudo arall
- Mae’r gweithiwr wedi cymryd cyfnod absenoldeb estynedig heb dâl
- Mae’r lleoliad gwaith wedi newid
- Bu newid i deitl y swydd/Ei dyletswyddau
- Bu newid i’r cyflog/oriau gwaith
- Mae’r mudwr yn cymryd cyfnod o absenoldeb heb dâl


Os byddwch yn dymuno noddi unigolyn arall ar ôl i'ch trwydded gael ei chymeradwyo, bydd angen gwneud cais am ddyraniad ychwanegol ar yr SMS. Defnyddiwch y canllaw canlynol i wneud hyn.

## Gofyn am ddyraniad CoS ar y System Rheoli Nawdd

Mewngofnodwch i'r System Rheoli Nawdd gan ddefnyddio’ch enw defnyddiwr a’ch cyfrinair - https://www.points.homeoffice.gov.uk/gui-sms-jsf/SMS-001-Landing.faces




- Pan fyddwch wedi mewngofnodi, ar y ddewislen ar y chwith, cliciwch ar ‘Licence Summary, applications and services’, yna dewiswch ‘Request CoS/CAS allocation increase’




Home

Licence summary, applications and services

- Manage Level 1 and 2 users
- Request changes to licence details
- Licence summary
- PAYE References
- Request CoS/CAS allocation increase

- Cliciwch ar y botwm glas 'Add a request'



**Request additional CoS or CAS**

The table below displays your current and outstanding requests for additional CoS or CAS. If you do not have any current allocations for which additional CoS or CAS can be requested, nothing will be displayed. Choose:

- **Add** to add a new request for the relevant route;
- **Edit** to edit a request that has been saved but not yet submitted;
- **Withdraw** to withdraw a request that has been previously submitted and is still outstanding; or
- **Cancel** if you do not want to continue.


When you have added your request(s) for additional CoS or CAS, choose **Submit**.

Any additional CoS/CAS requested and granted will expire on the same date as your current annual allocation in that route.

Help (opens in a new window)

| | Route | Allocation limit | Allocation used | Allocation remaining | Date requested | Increase requested |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Add a request | Skilled Worker | [redacted] | [redacted] | [redacted] | | |

- Ychwanegwch y nifer yr hoffech wneud cais amdanynt ar gyfer y flwyddyn – bydd angen i hwn fod yn nifer realistig, yn seiliedig ar faint o unigolion rydych yn debygol o'u noddi *(gellir cynyddu hwn yn ddiweddarach os oes angen mwy arnoch)*
- Er mwyn rhesymu, byddem fel arfer yn argymell rhywbeth tebyg i – *'To recruit essential NHS workers who provide a vital service to the community, into Skilled Worker positions'* yn ogystal â'ch sail resymegol dros recriwtio i'r swydd benodol hon.
- Yna cliciwch ar y botwm glas 'Save'



**Skilled Worker**

Number requested:

Give reasons (2000 character limit):

Cancel Save

- Ar y dudalen nesaf, gwnewch yn siŵr eich bod yn clicio ar y botwm glas 'Submit' yn y gornel dde

| | Route | Allocation limit | Allocation used | Allocation remaining | Date requested | Increase requested |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Edit | Skilled Worker | [redacted] | [redacted] | [redacted] | | [redacted] |

Cancel Submit

Bydd y dudalen nesaf yn gadarnhad bod y cais wedi'i gyflwyno. Gall y ceisiadau hyn gymryd hyd at 18 wythnos i gael eu cymeradwyo felly dylid eu cyflwyno ymlaen llaw. Os oes angen dybryd am gymeradwyaeth gyflym, gellir talu ffi ychwanegol i'r Swyddfa Gartref am gymeradwyaeth cyn pen 5 diwrnod gwaith.

## Estyniad 4 Mis i Hyfforddai Meddyg Teulu

Efallai bod gan unigolion sydd â Fisa Gweithiwr Medrus fel Hyfforddai Meddyg Teulu estyniad pedwar mis sydd eisoes wedi'i gymhwyso i'w hawl presennol i aros yn y DU.. Bwriad hyn yw caniatáu amser ychwanegol i hyfforddeion sicrhau gwaith gyda chyflogwr a threfnu nawdd gyda nhw. Wrth aseinio CoS i Feddyg Teulu dan Hyfforddiant, mae Tîm CoS PCGC yn cynnwys nodyn sy'n cadarnhau eu bod yn gymwys felly dylid cynnwys yr estyniad yn awtomatig pan gaiff ei fisa ei gymeradwyo.

Os oes gan yr unigolyn rydych chi'n bwriadu ei noddi'r estyniad pedwar mis wedi'i gymhwyso iddo, bydd hyn yn caniatáu iddo weithio hyd at 20 awr yr wythnos tra bod y practis yn aros am ei drwydded noddwr a bod y cais am fisa newydd yn cael ei brosesu.

Mae'r ddolen isod yn rhoi rhagor o wybodaeth am y cynllun hwn.

General Practitioner (GP) 4 month extension scheme  | Hwb Meddygol